# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Medi 2020

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod preifat**

(09.00-09.30)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Papur(au) i'w nodi**

(09.30-09.40)

**2a Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (9 Medi 2020)**

(Tudalennau 1 - 9)

**3 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafodaeth o Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor**

(09:40 - 09:50) (Tudalennau 10 - 14)

PAC(5)-19-20 Papur 1 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Gwella ffordd yr A465 Rhan 2: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru**

(09.50-11.20) (Tudalennau 15 - 45)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-17-20 Papur 2 – Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

PAC(5)-17-20 Papur 3 – Papur gan Lywodraeth Cymru

Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru

Simon Jones – Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru

Andy Falleyn – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11.20)

Eitem 6

## 6 Gwella ffordd yr A465 Rhan 2: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.20 – 12:15)

Eitem 2a

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

08 Medi 2020

Annwyl Mr Ramsay,

Yn dilyn fy ymweliad â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 3 Awst, a'ch llythyr dilynol, dyddiedig 11 Awst, amgaeaf fy ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Rhowch wybod i mi a hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**3 Awst 2020**
**Camau gweithredu dilynol**

1) **Y ffigurau diweddaraf, yn ôl awdurdod lleol, ar ddefnydd o'r cyllid ychwanegol sydd ar gael fel rhan o'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', (i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol yn ystod y pandemig) i sicrhau bod safleoedd teithwyr â chysylltiad band-eang.**

Fel rhan o'n rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', cafodd cymorth i ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir ei roi ar waith drwy raglen ehangach EdTech Hwb.

Ymrwymodd y Gweinidog Addysg hyd at £3 miliwn i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir lle nad oedd darpariaeth bresennol ar waith gan eu hysgol neu eu hawdurdod lleol. Gan weithio gyda'u hysgolion, defnyddiodd awdurdodau lleol y cyllid i ddarparu dyfeisiau ysgol wedi'u haddasu i ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a chysylltedd MiFi 4G lle bo angen. Yn seiliedig ar y galw a nodwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol, mae 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u defnyddio ledled Cymru. Mae dadansoddiad lefel uchel o'r defnydd hwnnw isod yn ôl awdurdod lleol:

| ALl | Darpariaeth MiFi | Trwyddedau Meddalwedd |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 100 | 1000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 310 | 559 |
| Caerffili | 842 | 800 |
| Caerdydd | 2500 | - |
| Caerfyrddin | 300 | 750 |
| Ceredigion | 115 | - |
| Conwy | 226 | 123 |
| Dinbych | 125 | - |
| Sir y Fflint | 165 | - |
| Gwynedd | 170 | - |
| Ynys Môn | 125 | 240 |
| Merthyr | 250 | - |
| Trefynwy | 200 | 300 |
| Casnewydd | 1300 | 800 |
| Castell-nedd Port Talbot | 200 | 1094 |
| Sir Benfro | 300 | - |

| | | |
|---|---|---|
| Powys | 600 | 700 |
| Rhondda Cynon Taf | 1400 | 1400 |
| Abertawe | 500 | 65 |
| Torfaen | 560 | 1356 |
| Bro Morgannwg | 350 | 230 |
| Wrecsam | 210 | 300 |
| Cyfansymiau | 10848 | 9717 |

Mae'r broses wedi bod dan reolaeth yr awdurdodau lleol a'r ysgolion eu hunain ac mae awdurdodau lleol wedi ymgysylltu â'u hysgolion i nodi pwy yw'r dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Felly, nid oes gennym wybodaeth wedi'i chadw'n ganolog ar gyfer yr ymyriad penodol hwn o ran dosbarthu dyfeisiau i deuluoedd, plant a phobl ifanc ac, i ateb eich cwestiwn penodol, i safleoedd teithwyr. Fodd bynnag, nodaf isod y camau penodol rydym wedi bod yn eu cymryd mewn perthynas â safleoedd teithwyr a chysylltedd, gan gynnwys yn ystod pandemig COVID-19, gan weithio gyda grŵp rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ffurfiwyd o blith darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol.

**2) Manylion pa awdurdodau lleol oedd â safleoedd teithwyr parhaol heb unrhyw gysylltiadau band-eang, a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cysylltiad band-eang ar gyfer y safleoedd hyn.**

Nid oes gan bob awdurdod lleol safle teithwyr parhaol a gall nifer y safleoedd a'r lleiniau amrywio dros amser. Yn 2018, gofynnwyd i bob awdurdod lleol sydd â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig sy'n cael eu rhentu'n gymdeithasol ynghylch darpariaeth ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys mynediad at wasanaethau sylfaenol fel dŵr, trydan a nwy. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd sefydlog. Nid oedd hyn wedi'i olygu fel ymarfer monitro yn gymaint ag fel cyfle i nodi arfer effeithiol neu fylchau posibl yn y ddarpariaeth. Ymatebodd awdurdodau lleol o fewn y cyd-destun hwnnw.

Cafwyd ymatebion gan chwe awdurdod lleol yn cwmpasu wyth safle a 164 o leiniau. Ni chafwyd ymateb gan wyth awdurdod lleol sydd â safleoedd, yn cwmpasu 14 safle a 239 o leiniau. Roedd pump o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg hwn wedi cymryd camau i ddarparu llinellau ffôn/rhyngrwyd i breswylwyr.

Mae ariannu llinellau sefydlog o fewn safleoedd yn gost gymwys o dan Grant Safleoedd Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru. Dros y pedair blynedd diwethaf rydym wedi annog awdurdodau lleol i ddatblygu a chyflwyno prosiectau ar gyfer y cyllid i gefnogi amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys darparu band eang. Fel rhan o'r cyllid disgwyliwn i awdurdodau lleol ddangos tystiolaeth o ymgysylltu â phreswylwyr. Yn anffodus, nid yw'r nifer sydd wedi manteisio ar hyn wedi bod mor uchel ag y byddem wedi gobeithio.

Ers diwygio'r canllawiau *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr* ddiwethaf yn 2015, mae llawer mwy o wasanaethau wedi rhoi blaenoriaeth i'r digidol neu wedi troi'n gwbl ddigidol, ac mae mynediad i'r rhyngrwyd yn dod yn rhan o wasanaethau hanfodol i ddinasyddion. Rydym yn ymwybodol nad oes gan bob safle signalau data symudol da, Wi-Fi na band eang ar lefel lleiniau unigol.

Yn ystod pandemig COVID-19, cynullwyd grŵp rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr gennym a ffurfiwyd o blith darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol. Nododd rhanddeiliaid amrywiaeth o faterion yn ymwneud â mynediad at gyfleustodau sylfaenol, cyflenwi nwyddau a mynediad at wasanaethau. Nododd nifer o randdeiliaid broblemau sylweddol o ran cofrestru ar gyfer gwasanaethau ar-lein a chael gafael arnynt. Cafodd yr anallu i wneud hynny effaith ar addysg, cael budd-daliadau, chwilio am gyflogaeth a chael gafael ar negeseuon iechyd hanfodol.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, dechreuodd swyddogion waith mapio manwl ychwanegol ar safleoedd awdurdodau lleol er mwyn deall y gwasanaethau hanfodol a ddarperir i breswylwyr ar safleoedd, ac mae swyddogion wedi ysgrifennu eto at bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w gwahodd i gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau seilwaith i fynediad i'r rhyngrwyd. Cynigir hyd at 100% o'r costau cymwys.

Fel gyda'r ymarfer a gynhaliwyd yn 2018, wrth inni fynd ati ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael ar safleoedd, rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran cael gwybodaeth gyflawn, gyson a chlir i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu. O'r 402 o leiniau sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd ledled Cymru, gwyddom fod gan 19% "fynediad gwael", efallai bod gan 25% rywfaint o fynediad (sydd o bosibl yn cynnwys signal data symudol da), ac efallai bod gan 19% fynediad "da", sydd o bosibl yn cynnwys seilwaith sydd ei angen ar gyfer band eang. Yn achos 37% o leiniau, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i ddeall a yw preswylwyr yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd na sut.

Gan ystyried yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd o ymarfer casglu gwybodaeth 2018 rydym yn gweithio'n agosach gydag awdurdodau lleol i nodi pa fathau o fynediad i'r rhyngrwyd, gan gynnwys data symudol cyflym, Wi-Fi safle cyfan, llinellau ffôn/band eang sefydlog sydd ar gael ar bob safle a pha fylchau sydd yna mewn seilwaith hanfodol a/neu pa rwystrau sydd yna sy'n atal pobl rhag manteisio arno.

Yn ogystal, gan ddechrau ym mis Medi, mae'r Fforwm Sipsiwn–Teithwyr – rhwydwaith darparwyr gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol Cymru – yn cynllunio grŵp gorchwyl a gorffen i rannu arfer da a datblygu strategaethau i ailennyn diddordeb dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr a'u teuluoedd mewn addysg yn dilyn y cyfnod clo.

**3) Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i fodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau ychwanegol gan gofio pa mor gyflym y bydd angen gweithredu'r canllawiau hyn?**

Drwy gydol yr haf, mae Swyddogion wedi ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau llafur, Cyfarwyddwyr Addysg, penaethiaid a gweithredwyr trafnidiaeth ar y canllawiau gweithredu ar gyfer yr hydref.

Gan gydnabod y byddai angen amser ar ysgolion i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd, rhoddodd y Gweinidog Addysg amser ychwanegol i ysgolion ar ddechrau'r tymor i gynllunio a pharatoi i bob disgybl ddychwelyd ar 14 Medi. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail barn rhanddeiliaid allweddol. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag undebau llafur, y proffesiwn a'r awdurdodau lleol, a'r adborth a gafwyd yw bod ysgolion wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu eu cynlluniau i alluogi pob dysgwr i ddychwelyd yn yr hydref. Mae ysgolion wedi dechrau croesawu dysgwyr yn ôl ac mae gan bob ysgol drefniadau ar waith i dderbyn pob dysgwr erbyn 14 Medi.

Rydym wedi rhannu enghreifftiau byw o'r gwaith y mae rhai o'n hysgolion wedi'i wneud i baratoi drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag Estyn i ddarparu enghreifftiau pellach o sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer dechrau'r tymor. Mae'r rhain i gyd ar gael drwy wefan Estyn.

Dros yr haf rydym wedi bwrw ymlaen ag ymgyrch i roi tawelwch meddwl sydd wedi darparu deunyddiau amrywiol i rieni, ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae ymatebion a gafwyd gan Gyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol a sylwadau gan rieni yn ein sicrhau bod y rhain wedi cael derbyniad cadarnhaol.

**4) A fydd Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw ganllawiau pellach ar weithrediad ysgolion yn yr hydref?**

- **Eglurder ynghylch beth yn union y mae pellter cymdeithasol yn ei olygu yng nghyd-destun ysgolion cynradd – A yw'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn berthnasol i ysgolion cynradd?**

Fel rhan o'r adolygiad 21 diwrnod o gyfyngiadau'r cyfnod clo, penderfynodd y Prif Weinidog yn ddiweddar lacio'r sefyllfa o ran yr angen i blant o dan 11 oed gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd neu oddi wrth oedolion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad ydynt bellach yn ddarostyngedig i gyfyngiadau eraill ar leihau cysylltiadau. Mae'n fater o gydbwyso risg mewn ffordd realistig i'r rhai sy'n byw gyda'r plant hyn ac yn gofalu amdanynt, y mae'n debygol y bydd angen cyswllt corfforol arnynt fel mater o drefn wrth roi gofal bob dydd iddynt. Rhaid i'r grŵp oedran hwn barhau i gadw at y cyfyngiadau cymdeithasol ar gwrdd â grwpiau teuluol eraill neu gynulliadau ehangach, a mater i rieni o hyd yw asesu a gwerthuso risgiau cysylltiadau teuluol a chymdeithasol eu plant. Mae'n dal yn bwysig parhau ag amseroedd cychwyn gwahanol er enghraifft, er mwyn lleihau'r cymysgu rhwng rhieni, er enghraifft wrth gât yr ysgol.

Mae cadw o fewn grwpiau cyson yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint drwy gyfyngu ar nifer y dysgwyr a'r staff a fydd yn cael cyswllt â'i gilydd i'r rheini a fydd yn y grŵp yn unig. Derbynnir na fydd dysgwyr, ac yn enwedig y dysgwyr ieuengaf, efallai'n gallu cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd, ac mae grwpiau cyson yn fesur diogelu ychwanegol. Mae cadw grwpiau cyswllt penodol na fyddant yn cymysgu yn ei gwneud yn haws gwybod yn gynt, os bydd achos positif, pwy yw'r rheini y gallai fod angen iddynt hunanynysu, gan gadw'r nifer hwnnw mor isel â phosibl.

Mae defnyddio grwpiau cyswllt bach yn arwain at nifer o heriau addysgol ac ymarferol sy'n cyfyngu ar weithrediad arferol ysgolion. Mae hyn yn wir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ond mae'n arbennig o anodd mewn ysgolion uwchradd.
Fodd bynnag, ac ystyried y gostyngiad yn nifer yr achosion o COVID-19 a'r cynllun ar gyfer tymor yr hydref i ailgydio yn ystod lawn pynciau'r cwricwlwm, efallai y bydd angen i ysgolion newid y pwyslais ar grwpiau cyswllt, gan gynyddu maint y grwpiau, ond gan aros o fewn eu system o reolaethau a chynnwys hyn yn eu hasesiadau risg.

Mae'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd ar 2 Medi yn parhau i fod yn gyfredol ac ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gynlluniau i newid ein canllawiau gweithredu mewn perthynas â'r cyngor ar gyfer y grŵp oedran penodol hwn. Fodd bynnag, os bydd y dystiolaeth yn newid, byddwn yn ailedrych ar ein canllawiau ac yn eu diweddaru fel y bo'n briodol. Mae'r canllawiau eisoes yn ei gwneud yn glir bod cael llai o gyswllt a chymysgu rhwng pobl yn lleihau'r cyfleoedd i drosglwyddo COVID-19. Maent yn cydnabod hefyd, yn achos dysgwyr iau, y bydd y pwyslais ar wahanu grwpiau gan ein bod yn derbyn na fydd y dysgwyr ieuengaf yn gallu cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd, a bod grwpiau cyson yn fesur diogelu ychwanegol. Mae cadw grwpiau cyswllt penodol na fyddant yn cymysgu yn ei gwneud yn haws gwybod yn gynt, os bydd achos positif, pwy yw'r rheini y gallai fod angen iddynt hunanynysu, gan gadw'r nifer hwnnw mor isel â phosibl.

- **Eglurder ynghylch darpariaeth prydau ysgol am ddim / clybiau brecwast ysgolion / clybiau ar ôl ysgol o fis Medi ymlaen.**

Bydd y gofynion sy'n parhau o ran ymbellhau cymdeithasol a gofod cyfyngedig ar gyfer paratoi, gweini a bwyta bwyd yn arwain at ddarpariaeth arlwyo amrywiol mewn ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Mae trafodaethau gydag arweinwyr arlwyo awdurdodau lleol yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yn bwriadu darparu gwasanaeth llawn, fwy neu lai, gyda phrydau poeth (er y bydd y bwydlenni yn symlach, gan wneud addasiadau i ystyried yr angen am ymbellhau cymdeithasol, amseroedd bwyd gwahanol ac weithiau ddarparu prydau bwyd i ystafelloedd dosbarth), tra bod awdurdodau lleol eraill wedi nodi na fyddant yn ailddechrau eu gwaith arlwyo, o leiaf yn ystod wythnosau cyntaf y tymor. Lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu darparu pryd o fwyd i ddisgyblion yn yr ysgol, bydd y ddarpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn amrywio. Deallwn fod o leiaf un awdurdod lleol yn bwriadu darparu parseli bwyd i gyfeiriadau cartref disgyblion, tra bod eraill yn ystyried taliadau arian parod a thalebau yn lle hynny neu becynnau cinio.

Darparodd Llywodraeth Cymru £40 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol i sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu drwy gydol gwyliau haf yr ysgol tan 31 Awst 2020.  Mae £1.28 miliwn arall hefyd ar gael at yr un diben yn ystod pythefnos gyntaf tymor yr hydref wrth i rai ysgolion ddychwelyd i'r ysgol yn raddol. Ar ôl hynny, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ariannu'r holl ddarpariaeth prydau ysgol am ddim o'r cyllidebau sydd ganddynt eisoes.

Mae ein canllawiau gweithredu ar gyfer ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u hysgolion, ystyried ailddechrau cynlluniau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd ac y dylent ystyried ailddechrau unrhyw ddarpariaeth frecwast ac ar ôl ysgol arall, p'un a yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan yr ysgol neu'n cael ei rhedeg y tu allan i'r ysgol gan ddarparwr preifat.

Os oedd ysgol gynradd yn cynnig cynllun brecwast am ddim cyn COVID-19, mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn parhau i ddarparu'r cynllun brecwast am ddim ar ddechrau tymor newydd yr ysgol.  Rhaid i awdurdodau lleol, yn ogystal â chyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid roi sylw i'r canllawiau statudol wrth ystyried a ddylid ailddechrau cynlluniau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Byddem yn disgwyl, gan y dylai ysgolion fod yn agored i bob disgybl yn llawn amser o ddechrau mis Medi, y dylai clybiau brecwast weithredu fel arfer, oni bai y byddai'n afresymol iddynt wneud hynny. Nid yw'n bosibl dweud beth fydd yn afresymol neu beidio mewn unrhyw sefyllfa benodol a bydd awdurdodau lleol yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- y galw am ddarparu brecwast am ddim yn yr ysgol a gynhelir;
- p'un a oes lleoliad ar gael/addas er mwyn darparu brecwast am ddim;
- p'un a oes cyfleusterau ar gael/addas yn yr ysgol a gynhelir i ddarparu'r ddarpariaeth;
- p'un a oes staff ar gael/addas i oruchwylio'r ddarpariaeth frecwast.

Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried iechyd a diogelwch disgyblion a staff a gofynion ymbellhau cymdeithasol.

**5) Rydym yn pryderu, yn yr hinsawdd sydd ohoni, y bydd angen i ysgolion nad ydynt yn perfformio'n dda fod wedi cael eu hasesu a gwneud gwelliannau yn fwy amserol er mwyn sicrhau cyn lleied o berygl â phosibl i ddisgyblion. Er ichi nodi bod cryn arfer da wedi'i baratoi a'i rannu trwy ddulliau eraill, mae'n dal i fod yn her annog ysgolion i ddilyn yr arfer hwnnw. A allwch roi sicrwydd inni y rhoddir sylw i ysgolion sy'n tanberfformio?**

Roeddwn yn cydnabod yr her a ddaeth yn sgil y pandemig o ran hwyluso a galluogi parhad dysgu.  Wrth inni fynd i mewn i fis Medi, bwriadwn ddatgan yn glir ein disgwyliad bod ysgolion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau parhad dysgu os daw tarfu pellach yn y dyfodol.  Fel rhan o ganllawiau gweithredu a rheoli risg ehangach sy'n cael eu cyhoeddi, bydd disgwyl i ysgolion nodi yn eu cynlluniau hawl disgyblion i gael cyswllt a chymorth, amlder a hyd sesiynau addysgu a dysgu, a faint o amser y disgwylir i ddisgyblion ei dreulio'n astudio'n annibynnol.  Bydd eu

consortia rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol yn craffu ar gynlluniau ysgolion, ac yn eu monitro fel rhan o'r gwaith y bydd Estyn yn ei wneud yn y flwyddyn i ddod.

Bydd disgwyl i ysgolion hefyd nodi'r cwricwlwm a fydd ar gael i ddysgwyr sy'n ymwneud â'r rhaglen *Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau* a'r cwricwlwm cyffredinol a fydd ar gael i bob dysgwr os daw tarfu pellach ar weithgarwch arferol.

Os nad yw ysgolion yn darparu cynlluniau priodol neu os nad ydynt yn bodloni gofynion y rhaglen *Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau*, cânt eu cefnogi gan eu consortia rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar y protocolau i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio a chyda chonsortia rhanbarthol ar eu darpariaeth fonitro, cymorth a Dysgu Proffesiynol fel sy'n briodol i anghenion yr ysgol.

Mae awdurdodau lleol bellach wedi derbyn y grantiau a'r dyraniadau ar lefel ysgolion, fel rhan o'r £29 miliwn ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer recriwtio athrawon a chynorthwywyr addysgu ychwanegol. Rydym yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i roi'r rhaglen recriwtio ar waith. Er ein bod yn disgwyl i ysgolion ganolbwyntio ar y busnes bob dydd o weithredu o dan amodau newydd am ychydig wythnosau, rydym wedyn am weld recriwtio yn cael ei wneud yn flaenoriaeth i benaethiaid ac awdurdodau lleol.

**6) Lleoliadau gofal plant - beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i asesu'r gofyniad i'r rhain fod yn weithredol eto erbyn mis Medi gan fod rhieni angen sicrwydd y bydd gofal plant ar gael.**

Ers i mi fod yn y cyfarfod Pwyllgor, gwelwyd nifer o ddatblygiadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal plant yng Nghymru a'r cyllid ar eu cyfer.

Ar 4 Awst, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r ddarpariaeth o dan y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn ailddechrau o fis Medi ymlaen. Dechreuodd awdurdodau lleol brosesu ceisiadau o 10 Awst. Gwyddom fod mynediad at y gofal plant a ariennir o dan y Cynnig yn allweddol i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio ac i roi sicrwydd i leoliadau gofal plant o ran y galw a chyllid. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar gyfer lleoliadau gofal plant ar 5 Awst gan eu galluogi i gynyddu eu gweithgarwch ymhellach.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn ystyried y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf ynghylch trosglwyddo'r feirws ymhlith plant, a'r cyhoeddiadau ynghylch ymbellhau cymdeithasol i blant o dan 11 oed. Rydym wedi cael gwared ar y cyfyngiad ar faint grwpiau cyswllt yng ngoleuni hyn, ac mae cyfeiriad penodol yno at weithredu gofal plant bob pen i'r diwrnod a'r tu allan i'r ysgol.

Ar 12 Awst, cyhoeddwyd hefyd y Grant Darparwyr Gofal Plant a fydd yn darparu cyllid i'r lleoliadau gofal plant hynny nad ydynt wedi gallu manteisio ar y cynlluniau cymorth ehangach yn ystod cyfnod y coronafeirws. Agorodd y cynllun hwn i geisiadau ar 24 Awst, gydag amod bod derbynwyr y grant ar agor ac yn darparu gofal plant ym mis Medi. Rydym hefyd yn cynnal arolwg o'r sector gofal plant er

mwyn dod i well dealltwriaeth o weithgarwch darparwyr ar hyn o bryd, eu cynlluniau ar gyfer yr hydref ac unrhyw faterion neu bryderon sydd ganddynt am y misoedd nesaf.  Mae'r arolwg hwn bellach wedi dod i ben, a disgwylir y prif ganlyniadau yn ystod yr wythnos nesaf.

Byddwn yn gweithio gyda'r sectorau addysg a gofal plant i sicrhau bod cynifer o'r lleoliadau hyn yn agor ag sy'n bosibl ac i'w cefnogi i'r dyfodol.  Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 73% o'r 3,615 o leoliadau gofal plant a oedd wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2020 (cyn y pandemig) ar agor ar hyn o bryd.

# Eitem 3

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru ar Awdurdodau Cynllunio Lleol**

**Darparwyd gan: Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad: 17 Medi 2020**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 8 argymhelliad a geir ynddo.

**Argymhelliad 1 –** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r toriadau sydd wedi'u gwneud i gyllidebau Cynllunio drwy ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cydweithio ac yn uno i wella cydnerthedd a meithrin capasiti. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod digon o rannu gwybodaeth rhwng y cyrff cynllunio gwahanol yn y DU er mwyn helpu i ddysgu a gwella arbenigedd.

***Derbyn*** – Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyllidebau awdurdodau lleol wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i gyni cyllidol yn y sector cyhoeddus. Er mwyn symud yn nes at adennill costau ar gyfer gwasanaethau rheoli datblygu, daeth cynnydd o 20% mewn ffioedd ceisiadau cynllunio i rym ar 24 Awst. Yn ddiweddar, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol ynglŷn â nifer o faterion cynllunio. Roedd un o'r materion hyn yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio yn cadw ffioedd ceisiadau cynllunio. Mae gwaith ymchwil hefyd wedi'i gomisiynu i nodi model newydd ar gyfer ffioedd cynllunio er mwyn adlewyrchu cost darparu'r gwasanaeth yn well. Cyhoeddir adroddiad ar y gwaith ymchwil yn ystod hydref 2020.

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/745/contents/made

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/planning-and-the-post-covid-19-recovery-letter-to-local-authorities_0.pdf

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn cynnwys pŵer galluogi a fyddai'n caniatáu i Gydbwyllgorau Corfforaethol gael eu creu, drwy reoliadau. Mae Cydbwyllgorau Corfforaethol yn sicrhau dull gweithredu cyson lle y gall prif gynghorau gydweithio i gyflawni swyddogaethau penodol. Byddai Cydbwyllgorau Corfforaethol yn gorff corfforaethol yn cynnwys aelodau etholedig ei brif gynghorau cyfansoddiadol a byddent yn gallu cyflogi staff a dal asedau ac arian. Byddai prif gynghorau yn gallu gofyn i Weinidogion Cymru sefydlu, drwy reoliadau, Gydbwyllgor Corfforaethol lle maent am gydweithio am fod ganddynt fuddiannau a rennir ac er budd pawb. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu mynnu bod swyddogaethau prif gynghorau yn cael eu cyflawni gan gydbwyllgor corfforaethol. Mae swyddogaethau o'r fath yn cynnwys cynllunio defnydd tir Strategol a thrafnidiaeth.

Drwy fynnu bod gwaith cynllunio strategol yn cael ei wneud gan Gydbwyllgorau Corfforaethol, caiff y broses o roi Cynlluniau Datblygu Strategol ar waith yn gyson ledled Cymru ei hwyluso. Caiff fframwaith llywodraethu ei lunio hefyd a fydd yn darparu ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol er mwyn gwella cydnerthedd a meithrin capasiti. Mae hyn yn berthnasol iawn i feysydd cynllunio arbenigol megis mwynau a gwastraff, dichonoldeb datblygiadau a'r amgylchedd hanesyddol lle nad yw'n ymarferol i bob ACLl ddyblygu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi rhwydweithiau proffesiynol ledled y DU ac Iwerddon a chymryd rhan ynddynt, gan gynnwys rhwydwaith Prif Gynllunwyr y Pum Gweinyddiaeth, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol er mwyn cefnogi dysgu a gwella arbenigedd.

**Argymhelliad 2 –** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu’r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol cyfredol i sicrhau bod y mesurau a ddefnyddir i farnu perfformiad ac effaith Cynllunio yn adlewyrchu cyfraniad yr holl asiantaethau yn y system Gynllunio ac yn datblygu mesurau newydd i bennu’n well beth yw effaith Cynllunio wrth wella llesiant mewn cymunedau ac ymhlith pobl.

***Derbyn*** – Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithdrefn flynyddol i adolygu a diweddaru Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. Mae ategu dangosyddion perfformiad â chyfres o ddangosyddion canlyniadau wedi bod yn un o nodau hirdymor Llywodraeth Cymru. Mae wedi cymryd cam i'r cyfeiriad hwn drwy gasglu dangosyddion datblygu cynaliadwy ar gyfer cynllunio sy'n cwmpasu meysydd megis datblygu mewn ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd, a defnyddio safleoedd tir llwyd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cynnwys cyfres o Ganlyniadau Creu Lleoedd Cenedlaethol, sy'n gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n nodi'r meysydd lle mae cynllunio yn cyfrannu at lesiant cymunedol ac unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gwaith gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ar Fesur Canlyniadau Cynllunio. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei wneud yn y DU ac Iwerddon a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2020. Bydd y gwaith ymchwil yn llywio'r adolygiad nesaf o ddangosyddion cynllunio.

**Argymhelliad 3 –** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu’r safonau cyfredol ar gyfer ymgysylltu a datblygu dulliau newydd sy’n adlewyrchu dulliau cyfathrebu’r 21ain Ganrif yn well i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y broses gynllunio.

***Derbyn* –** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen newid y dulliau presennol o ymgysylltu yn y system gynllunio yn sylweddol er mwyn adlewyrchu dyheadau cymunedau a dulliau cyfathrebu newydd. Bydd y Ffyrdd o Weithio 'Cynnwys' a 'Chydweithio', a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn sail i'r dulliau gweithredu newydd. Mae hyn yn ddarn sylweddol o waith a fydd yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth polisi a chanllawiau. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod pob cymuned yn cymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau wrth i'r cynllun sefydlu

egwyddor ynghylch p'un a yw datblygiad yn dderbyniol ai peidio gyda cheisiadau cynllunio dilynol yn ymdrin â materion megis gwaith dylunio manwl.

Mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at yr angen am ddulliau newydd o gynnwys cymunedau.  Mae cau adeiladau cyhoeddus a'r angen i bobl gadw pellter cymdeithasol wedi atal dulliau ymgynghori traddodiadol, megis adneuo dogfennau a chyfarfodydd cyhoeddus, rhag cael eu defnyddio.  Lle y bo'n bosibl defnyddir dulliau ar-lein i geisio cynnwys cymunedau gyda deunydd print yn cael ei ddarparu ar gais er mwyn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol.

Mae ymarfer cwmpasu cychwynnol a thrafodaeth â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi'u cynnal er mwyn nodi rhaglen o weithgarwch.

**Argymhelliad 4 –** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i gryfhau sut mae datblygwyr yn ymgynghori â chymunedau lleol cyn gwneud cais am ddatblygiadau mawr neu sylweddol.

***Derbyn*** – Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatgan y dylai cynnwys y gymuned fod yn un o gonglfeini'r system gynllunio yng Nghymru.  Dim ond drwy sicrhau ymgysylltu cynhwysfawr a pharchus rhwng y gymuned a'r datblygwr y gellir gwella canlyniadau cynllunio.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 safon ofynnol o ran ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr.  Mae canllaw arfer gorau hefyd wedi'i lunio sy'n annog datblygwyr i wneud mwy na dim ond bodloni'r gofynion statudol.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/ymgynghori-cymuned-cyn-ymgeisio.pdf

Mae rhai pryderon wedi'u codi bod ymgynghori â'r gymuned yn digwydd yn rhy hwyr yn y broses o gynllunio datblygiad newydd sy'n golygu bod datblygwyr yn aml yn amharod i wneud newidiadau i'w ceisiadau cynllunio.  Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Savills wedi dangos bod llawer o ddatblygwyr yn cyflwyno ceisiadau cynllunio yn fuan ar ôl i'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ddod i ben, sy'n awgrymu bod y broses naill ai'n cael ei rheoli'n effeithlon (sydd i'w ganmol) neu nad oes fawr ddim newidiadau yn cael eu gwneud i gynigion rhwng y broses ymgynghori cyn ymgeisio a cham cyflwyno'r cais cynllunio (am nifer o resymau), a fyddai'n golygu bod cyfleoedd posibl y broses yn cael eu colli.

https://www.savills.co.uk/insight-and-opinion/savills-news/275877/pac-research--is-wales--new-planning-process-delivering-

Bydd prosiect i werthuso ac argymell newidiadau i'r broses ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio yn dechrau yn ddiweddarach eleni.  Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, y sector datbygu a grwpiau cymunedol.

**Argymhelliad 5 –** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i wneud Creu Lleoedd a Chynlluniau Lle yn gynllun statudol, ac yn cyflwyno canllawiau ar sut y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol weithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod Cynllunio Lle yn greiddiol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

***Derbyn*** – Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n helaeth gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a rhanddeiliaid i ail-ganolbwyntio polisi cynllunio i gefnogi llesiant a chreu lleoedd. Er mwyn cefnogi gweithrediad y polisi, mae grŵp rhanddeiliaid, Creu Lleoedd Cymru, wedi'i sefydlu i ddatblygu'r Siarter Gwneud Lle cyntaf a Chanllaw Gwneud Lle. Bydd y siarter a'r canllaw yn cael eu lansio ym mis Medi.

Ystyriwyd gwneud Cynlluniau Lle yn rhan o'r cynllun datblygu statudol yn ystod hynt y Bil Cynllunio (Cymru) drwy'r Senedd. Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi'r argymhelliad ar waith.

Mae'r hyblygrwydd presennol o ran pryd a sut i lunio cynlluniau lleoedd yn nodwedd gadarnhaol sy'n ei gwneud yn bosibl i ddulliau gweithredu gwahanol gael eu mabwysiadu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Ystyrir rôl Cynlluniau Lle fel ffordd o ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o'r rhaglen o weithgarwch i ddatblygu dulliau newydd o gynnwys y gymuned y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i Argymhellliad 3. Gall hyn gynnwys ystyried a ellid defnyddio Cynlluniau Lle fel sail i ddatblygu CDLlau yn y dyfodol. Darperir canllawiau ar baratoi Cynlluniau Lle gan y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a Chynllunio Cymorth Cymru.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf

http://www.placeplans.org.uk/cy/

**Argymhelliad 6** – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau cytundebau Adran 106 trwy:
▪ ddiweddaru canllawiau i'w gwneud yn ofynnol bod arfarniadau opsiynau datblygu yn seiliedig ar un ffynhonnell wybodaeth, gan ddefnyddio data adeiladu'r gwasanaeth gwybodaeth costau adeiladu i wella amcangyfrifon, cyngor ar gostau, cynlluniau costau a meincnodau; a
▪ chyflwyno system talu cyfrannau ar gyfer cyfraniadau Adran 106, gan osod gofyniad ar ddatblygwyr i dalu traean o'r swm cytunedig ar adeg rhoi'r caniatâd cynllunio; traean pan fydd y gwaith datblygu'n dechrau ar y safle; a thraean pan fydd y safle wedi gorffen cael ei ddatblygu.

***Derbyn*** – Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad. Mae'r systemau a etifeddwyd a gydgysylltiedig o A106 a'r ardoll seilwaith cymunedol yn gymhleth ac mae angen ei hadolygu ar ôl i'r cyfrifoldeb am y polisi gael ei ddatganoli i Gymru. Caiff rhaglen waith ei chyflwyno yn amodol ar argaeledd adnoddau yng ngoleuni blaenoriaethau eraill gan gynnwys adferiad o bandemig Covid 19 a Brexit. Bydd hyn

yn cynnwys adolygu’r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ac ystyried a yw gwneud taliadau seilwaith fesul cam yn briodol.

Cyn dechrau ar adolygiad mawr yn y maes hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gwaith ymchwil i lunio modelau dichonoldeb datblygiadau rhanbarthol sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael yn lleol gan gynnwys gwerthoedd tir, costau adeiladu a phrisiau gwerthu. Mae'r model ar gyfer De-orllewin Cymru wedi'i gwblhau. Mae ACLlau yn Ne-ddwyrain Cymru hefyd yn bwriadu mabwysiadu'r model.

**Argymhelliad 7 –** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar ddefnyddio cytundebau adran 106 i benderfynu a yw’r cyfraniadau a nodwyd gan ddatblygwyr wrth gytuno ar gais cynllunio yn cael eu gwireddu. Mae’r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i werthuso sut mae cytundebau Adran 106 yn gweithio gan nodi lle mae angen cryfhau dulliau gan gynnwys darparu adnoddau ar gyfer arbenigedd cyfreithiol a rheoli cytundebau Adran 106.

***Derbyn*** – Mae gwaith ymchwil wedi'i wneud yn flaenorol i'r defnydd o gytundebau Adran 106 yng Nghymru.

https://llyw.cymru/defnyddio-ymrwymiadau-cynllunio-au-gwerth

Gwnaed y gwaith ymchwil yn 2007. Derbynnir bod angen tystiolaeth fwy diweddar. Cynigir y dylid comisiynu gwaith ymchwil newydd i lywio'r adolygiad y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb i Argymhelliad 6. Bydd y prosiect ymchwil a'r adolygiad ehangach yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r diwydiant datblygu.

Mae negodi, drafftio a monitro cytundebau Adran 106 yn feysydd y mae'n bosibl y bydd awdurdodau cynllunio lleol am eu darparu ar y cyd drwy Gydbwyllgorau Corfforaethol y cyfeirir atynt yn ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 1.

**Argymhelliad 8 –** Er ein bod yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o sefydlu Cod Cynllunio Cymru, o ystyried y gwahaniaeth yn y systemau Cynllunio rhwng Cymru a Lloegr, mae’r Pwyllgor yn argymell bod hyn yn mynd yn bellach na Chod ac yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth i helpu i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

***Derbyn* –** Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gôd cynllunio ar wahân i Gymru. Bydd y côd yn cydgrynhoi ac yn symleiddio deddfwriaeth gynllunio yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Gwaith Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd rhwng y Fenni a Hirwaun
# Rhan 2 Gilwern i Fryn-mawr
# Sesiwn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 28 Medi 2020
# Papur Tystiolaeth Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

## Cyd-destun

1. Mae'r cynllun i uwchraddio'r A465 rhwng Gilwern a Bryn-mawr (Rhan 2) yn rhan o brosiect ehangach i ddeuoli'r A465 rhwng y Fenni a Hirwaun. Rhannwyd y prosiect yn chwe rhan er mwyn galluogi proses gyflawni fesul cam sy'n mynd rhagddi ers 2000. Hyd yma, mae tair rhan wedi cael eu hadeiladu, a bydd cyflawni'r cynllun hwn yn cwblhau ffordd ddeuol barhaus i Ddowlais Top.

2. Mae cynllun Rhan 2 wedi bod yn mynd rhagddo ers dechrau 2015 ac mae'r rhaglen wedi gweld llawer o oedi a chynnydd mewn costau. Lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ym mis Chwefror 2020 gyda'r canfyddiadau interim i'r problemau a wynebodd y cynllun.

## Athroniaeth Caffael – Ymwneud Cynnar gan Gontractwr

3. Mae arferion gorau safonol yn y diwydiant ar gyfer prosiectau seilwaith priffyrdd mawr dros y 15+ mlynedd diwethaf wedi cynnwys defnyddio contract Ymwneud Cynnar gan Gontractwr, Cost Darged, caffael o ran dylunio ac adeiladu. Defnyddir y math hwn o gontract yn eang yn y DU a dyma'r llwybr caffael a ffefrir gan Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a chymhleth. Fe'i defnyddiwyd yn llwyddiannus ar nifer o brosiectau cefnffyrdd mawr a gyflawnwyd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

4. Yn adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2015 ar *Werth am Arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd* cafodd buddiannau'r contract Ymwneud Cynnar gan Gontractwr eu cydnabod ac argymhellwyd y dylid ystyried ehangu'r model hwn hefyd ar gyfer cynlluniau gwerth is.

5. Mewn egwyddor, mae cynllun cymhleth fel Rhan 2 yn addas i gontract Ymwneud Cynnar gan Gontractwr ar yr amod bod y contractwr yn gwneud y defnydd gorau o'r cam datblygu dyluniad er mwyn cynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol i ddeall cyfyngiadau'r safle, y dulliau sy'n ofynnol i adeiladu'r prosiect a lefel a natur y risgiau i'w gyflawni.

6. Galwodd y dull Ymwneud Cynnar gan Gontractwr ar gyfer y cynllun hwn am benodi contractwr i ymgymryd â'r canlynol:

    - Rhan 1: Cyfnod Allweddol 3 (Dyluniad Amlinellol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) a Chyfnod Allweddol 4 (Proses Statudol), a chwblhau'r gwaith hwn yn foddhaol
    - Rhan 2: Cyfnod Allweddol 6 (Adeiladu ac ôl-ofal).

7. Roedd y broses gaffael ar gyfer y cynllun hwn yn cwmpasu rhannau 1 a 2 (dylunio ac adeiladu) o'r broses Ymwneud Cynnar gan Gontractwr ar yr un pryd.

8. Mae contract Rhan 2 gyda Costain yn gontract Cost Darged. Mae'r Gost Darged yn cynrychioli'r gost a ddisgwylir gan Costain i ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt fel y'u diffinnir gan gwmpas y prosiect. O dan y contract telir y costau gwirioneddol (alldro) i Costain ynghyd ag addasiad contractiol, a elwir yn ddull ‘poen/ennill’, gan ddosrannu gorwariant/arbedion costau gyda Llywodraeth Cymru a Costain yn cymryd cyfran o'r gwahaniaeth rhwng costau alldro gwirioneddol y contractwr a'r Gost Darged. Nodir y dyraniad costau yn y contract.
9. Nod y dull ‘poen/ennill’ yw cymell y ddwy ochr i gydweithio er mwyn lliniaru achosion o oedi neu orwariant lle y bo'n bosibl. O ganlyniad i ddiwygiad i'n contractau, mae Rhan 2 yn galluogi Llywodraeth Cymru i gymhwyso'r cosbau ariannol hyn wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo yn hytrach na cheisio eu cwmpasu ar y diwedd.

**Cynnydd mewn costau o'r gyllideb a gymeradwywyd**

<u>Rhan 2 Gwerthuso Tendrau a Dyfarnu Contractau</u>

10. Fel rhan o'i dendr, cynigiodd Costain newidiadau sylweddol yn ei ddyluniad tendr a oedd yn cynnwys nodweddion sydd ers hynny wedi bod yn rhan sylweddol o'r anghydfodau rhwng Llywodraeth Cymru a Costain. Ymysg y rhain roedd:

    - Ad-drefnu cyffordd Bryn-mawr i ennill tir oddi ar safle hen ffatri Anacomp. Pan ddatblygwyd y dyluniad yn y 1990au, roedd Ffatri Anacomp ym Mryn-mawr yn weithredol. Erbyn 2011, roedd y ffatri wedi cau a'r adeilad wedi'i ddymchwel. Roedd dyluniad Costain yn cynnig newid yn ffurfweddiad cyffordd Bryn-mawr a oedd yn golygu y byddai bron yn meddiannu safle cyfan Anacomp.

    - Codi wal gynnal yn lle Traphont Coed Ffyddlwyn. Roedd y dyluniad enghreifftiol yn cynnwys traphont i gario'r A465 ar hyd y dyffryn. Cynigiodd Costain wal gynnal 200m o hyd a 19m o uchder, sef RW14.

11. Roedd pris tendr Costain yn seiliedig ar ei ddyluniad tendr a oedd yn cynnwys y newidiadau hyn.

12. Penododd Llywodraeth Cymru Costain yn gontractwr Ymwneud Cynnar gan Gontractwr ym mis Mehefin 2011 yn dilyn proses gaffael gystadleuol yn unol â'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus. Roedd y contract yn ystyried amrywiaeth o ystyriaethau gwerth ac ni chafodd ei ddyfarnu i'r un a gynigiodd y pris isaf. Cefnogir Costain i gyflawni'r cynllun hwn gan Atkins a Jacobs (Halcrow ar adeg dyfarnu'r contract) i ddarparu gwasanaethau dylunio peirianneg a gan RPS i roi cymorth Amgylcheddol. Roedd y broses o benodi Costain yn 2011 yn cwmpasu contract Rhan 1 gyda bwriad clir y byddai'r broses o benodi ar gyfer contract Rhan 2 yn dilyn.

13. Roedd y swm tendro (Cost Darged Gychwynnol) yn sail i Gost Darged a Addaswyd CA6 (adeiladu) a gafodd ei datblygu a'i mireinio wrth i'r cynllun fynd rhagddo drwy'r broses ddylunio a'r broses statudol gan ystyried newidiadau datblygu i'r dyluniad a oedd yn gyfystyr â digwyddiadau gwerthuso (gweler isod).

14. Roedd pwynt atal yn y contract rhwng Rhannau 1 a 2 a oedd yn galluogi Llywodraeth Cymru neu'r contractwr i ddod â'r contract i ben heb gosb.

15. Roedd y pwynt atal hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â'r prosiect pe na bai'r Gost Darged a Addaswyd ar gyfer y gwaith adeiladu yn cynnig Gwerth am Arian, neu pe na bai'r cynllun yn bodloni blaenoriaethau Gweinidogol mwyach.

16. Roedd hefyd yn galluogi Costain i beidio ag ymrwymo i'r contract adeiladu, heb gost, pe bai o'r farn, yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a gasglwyd ganddo, na fyddai ei gost alldro rhagamcanol yn realistig.

17. Roedd Costain a Llywodraeth Cymru yn fodlon bwrw ymlaen ar sail y Gost Darged a Addaswyd ar gyfer y Gwaith Adeiladu y cytunwyd arni a dyfarnwyd y contract adeiladu i gyflawni'r prosiect hwn i Costain ym mis Rhagfyr 2014.

<u>Cost Darged, Cyllideb y Cynllun a Fframwaith Rheoli'r Contract</u>

18. Comisiynwyd Corderoy gan Lywodraeth Cymru yn 2010 i ddatblygu amcangyfrif o gost adeiladu ar sail cyllideb ar gyfer y cynllun sef £139m (heb gynnwys TAW) ar brisiau 2010 yn seiliedig ar ddyluniad enghreifftiol. Byddai £139m ar brisiau 2010 yn £207m ar brisiau 2020.

19. Hefyd yn 2009, penodwyd Arcadis (EC Harris ar y pryd) i weithredu fel Asiant Cyflogwr Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun. Defnyddiodd Arcadis yr amcangyfrif o gost adeiladu a baratowyd gan Corderoy i ffurfio sail y Gyllideb Wreiddiol o £193m (KSA3) ar brisiau 2011, sy'n chwyddo i tua £220m ar brisiau Ch4 2014, ac i £287m ar brisiau 2020.

20. Er bod swm tendr Costain yn 2011, yn seiliedig ar ei ddyluniad tendr, yn is na'r amcangyfrif o'r gost adeiladu, cadwyd cyllideb gyffredinol y cynllun gyda'r gwahaniaethau rhwng y ddwy gost yn cael eu cadw fel arian wrth gefn ar gyfer lliniaru risg a'u defnyddio i amsugno'r rhan fwyaf o'r newidiadau yng nghwmpas y cynllun heb orfod cynyddu'r gyllideb gyffredinol.

21. Cafodd cwmpas ychwanegol neu newidiadau a oedd wedi'u cynnwys yng nghontract Rhan 1 eu hamsugno i raddau helaeth yng nghyllideb derfynol y cynllun ar adeg dyfarnu'r contract adeiladu, a welodd y gyllideb yn cynyddu mewn termau real o'r gyllideb wreiddiol o £220.6m (£193 wedi'i chwyddo i brisiau 2014) i £223.2m pan ddyfarnwyd y contract.

22. Ymysg y newidiadau mewn cwmpas yn ystod contract Rhan 1 (datblygu dyluniad, asesiad o'r effaith amgylcheddol a phroses statudol) roedd y canlynol:

- Cynnydd mewn cost dargyfeiriadau Ymgymerydd Statudol a oedd yn ofynnol ar gyfer y cynllun. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i newid arfaethedig Costain i ddyluniad y tendr ym Mryn-mawr lle roedd llawer o gyfarpar defnyddiwr unigol allweddol.

- Darparu ffordd ymuno ac ymadael yng Ngilwern. Ychwanegwyd hyn at gwmpas y cynllun yn dilyn adborth gan randdeiliaid a gwaith modelu traffig.

- Diwygiadau i'r dyluniad ym Mryn-mawr o ganlyniad i statws uwch cynefin Tilio Acerion ym Mryn-mawr i ddynodiad Ewropeaidd ac yn Saleyard er mwyn osgoi clwydfan newydd i ystlumod. Ni ragwelwyd y rhain ar y cam tendr.

- Pont droed ychwanegol yng Ngilwern yn dilyn argymhelliad o adroddiad gan yr arolygydd annibynnol o ganlyniad i'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus.

- yr estyniad i'r rhaglen adeiladu o ganlyniad i'r cynnydd hwn yn y cwmpas.

- Cyflwynwyd cynnydd mewn TAW o 17.5% i 20% yn 2011.

23. Yn unol â'r contract, ystyriodd Acadis fod effaith y newidiadau hyn yn ddigwyddiadau gwerthuso a, lle y bo'n briodol, cawsant eu hychwanegu at Gost Darged a rhaglen Costain. Nid yw pob newid yn ystod y cyfnod hwn yn gyfystyr â digwyddiad gwerthuso. Dim ond mewn meysydd lle mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i newid y cwmpas (a elwir yn Wybodaeth neu Fanyleb am y Gwaith), sy'n newid un o'r rhagdybiaethau gorfodol y gofynnwyd i Costain eu gwneud ar y cam tendro neu fod Costain yn cymryd risg yr ystyriwyd bod Llywodraeth Cymru yn cytuno iddi ar y cam tendro.

24. Rôl Arcadia fel Asiant Cyflogwr oedd rhoi cyngor masnachol a thechnegol i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni Rhan 1 a Rhan 2 o'r contract.

25. Cynhaliodd Arcadis gyfarfodydd rheolaidd â Costain yn ystod y cyfnod cyn adeiladu er mwyn adolygu a herio'r broses o ddatblygu'r Gost Darged a'r rhaglen adeiladu ac argymhellodd i Lywodraeth Cymru ei bod yn realistig.

26. Mae Rheolwr y Prosiect yn rheoli'r contract adeiladu ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys derbyn rhaglen adeiladu wreiddiol Costain a oedd yn seiliedig ar y dyluniad amlinellol. Mae'r Rheolwr Prosiect yn rheoli agweddau masnachol y gwaith o weinyddu'r contract yn cynnwys:

- Adolygu gwaith a wnaed hyd yma, costau Costain ac ardystio taliadau.
- Rheoli Risg yn unol â'r Llawlyfr Gwerth am Arian
- Rheoli a gweinyddu newid o dan y contract yn cynnwys gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar Ddigwyddiadau Iawndal
- Adolygu, herio a derbyn rhaglen Costain.

27. O dan delerau'r contract, Costain sy'n gyfrifol am y dyluniad. Mae rôl dechnegol Arcadis yn y broses hon yn gyfyngedig i sicrwydd dylunio gan argymell i Lywodraeth Cymru bod y cynigion dylunio a baratowyd gan Costain yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, a'u bod wedi'u dylunio yn unol â'r Safonau cywir. Nid oedd archwilio dyluniadau hunanardystiedig Costain yn rhan o'i rôl.

<u>Yr anghydfodau rhwng Llywodraeth Cymru a'r contractwr</u>

28. Yn unol ag arferion gorau rheoli risgiau a cheisio sefydlu eglurder ar sefyllfa wirioneddol y prosiect, cymerodd Llywodraeth Cymru gam anarferol i gleient a dechreuodd achos anghydfod ffurfiol ar ddechrau 2018 i sicrhau mai dim ond yr hyn y mae ganddo hawl iddo o dan y contract a delir i Costain.

29. Mae contract Llywodraeth Cymru â Costain yn seiliedig ar gyfres o gontractau NEC3 sy'n safonol yn y diwydiant sy'n mabwysiadu dull dau gam o ddatrys anghydfod a nodir yn y contract. Y cam cyntaf yw dyfarniad, ac os na chaiff yr anghydfod ei ddatrys yn derfynol ar y cam hwn, gellir uwchgyfeirio'r anghydfod i'r ail gam sef cymrodeddu neu ymgyfreitha.

30. Hyd yma, mae naw mater y cafwyd anghydfod yn eu cylch wedi cael eu hatgyfeirio drwy ddyfarniad gyda dau o'r achosion hyn wedi symud i'r cam cymrodeddu. Ar y cyfan, roedd y rhain yn ymwneud â dehongliad y contract. Bu Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus mewn pedwar o'r dyfarniadau hyn, a bu Costain yn llwyddiannus mewn dau ohonynt ac roedd dau arall wedi'u rhannu i raddau. Aeth y ddau a gyrhaeddodd y cam cymrodeddu o blaid Llywodraeth Cymru yn bennaf, a chaiff yr un diweddaraf effaith sylweddol ar symud dehongliad y contract tuag at y safle a fu gan Lywodraeth Cymru drwyddi daw.

31. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y materion y cafwyd anghydfod yn eu cylch a'r penderfyniadau a gafwyd hyd yma. Mae'n ddiweddariad ar y tabl yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys penderfyniadau a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad ym mis Chwefror 2020.

| Anghydfod | Crynodeb a chanlyniad |
|---|---|
| Anacomp **(un dyfarniad)** | Roedd angen gwaith cloddio ar y prosiect ar safle hen ffatri Anacomp ym Mryn-mawr, a gafodd ei dymchwel yn 2008. Pan ddechreuodd Costain weithio ar y safle ar ddechrau 2015, canfu asbestos. Hawliodd Costain ddigwyddiad iawndal[1] o dan y contract i godi'r pris targed ac ymestyn y dyddiad cwblhau mewn perthynas â'r mater hwn.<br>Dechreuodd Llywodraeth Cymru y broses ddyfarnu mewn perthynas ag Anacomp ac aeth penderfyniad y dyfarnwr o blaid **Costain.** |
| Caeau Ben Ward **(un dyfarniad)** | Drwy drefniant preifat, caffaelodd Costain hen safle mwyngloddio brig i'r de o'r A465 sef Caeau Ben Ward. Caiff llawer o bridd a chreigiau a gymerwyd o'r safle adeiladu eu cludo i'r safle pwysig hwn i'w gwaredu neu, lle y bo'n bosibl, i'w prosesu cyn eu hailddefnyddio yn y prosiect. Roedd Costain wedi cyflwyno hysbysiad rhybudd o ddigwyddiad iawndal o dan y contract mewn perthynas â'r mater hwn.<br>Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y broses ddyfarnu mewn perthynas â Chaeau Ben Ward, ac ni chyflwynodd Costain amddiffyniad. Yn yr amgylchiadau hyn, aeth penderfyniad y dyfarnwr o blaid **Llywodraeth Cymru.** |
| Waliau cynnal **(pedwar dyfarniad a dau achos a aeth i'r cam cymrodeddu)** | Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu 89 o waliau cynnal. Ar gyfer nifer mawr o'r waliau hyn, mae Costain wedi dod ar draws sawl mater sydd naill ai yn llywio'r dyluniad a/neu'r effaith yn ystod y gwaith adeiladu (yn cynnwys amodau tir a thopograffi anoddach na'r disgwyl). O ganlyniad, mae Costain yn ystyried bod elfennau o'r dyluniad a ddatblygwyd gan Costain yng |

[1]Digwyddiadau iawndal yw digwyddiadau a gaiff eu diffinio yn Rhan 2 y contract dylunio ac adeiladu manwl, sy'n golygu os byddant yn digwydd ac nad ydynt yn deillio o unrhyw fai ar y contractwr, y bydd gan y contractwr hawl i gael iawndal am unrhyw effaith a gaiff y digwyddiad ar y prisiau ac amserlen y prosiect.

| | |
|---|---|
| | nghontract Rhan 1 (gwasanaethau proffesiynol CA3/4) ac a geir yn y Wybodaeth am y Gwaith yng nghontract Rhan 2 (CA6 dylunio ac adeiladu) yn amhosibl a/neu'n anghyfreithlon i'w hadeiladu mewn cydymffurfiaeth â safonau/rheoliadau perthnasol neu maent wedi cael eu newid am resymau eraill. Mae'r dyluniadau newydd yn costio mwy o lawer i'w hadeiladu. Mae'r materion yn gymhleth ac mae Llywodraeth Cymru a Costain wedi arddel safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn a achosodd y cynnydd mewn cost. Fodd bynnag, mae dyrannu risg o dan gontract Rhan 2 (CA6 dylunio ac adeiladu) yn allweddol i safbwynt y ddwy ochr.<br><br>Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau dyfarniadau mewn perthynas â dwy wal gynnal (RW08 i ddechrau ac yna RW02). Mae Costain wedi dechrau dau ddyfarniad mewn perthynas â wal gynnal arall (RW14). Rhoddodd y penderfyniadau dyfarnu rywfaint o eglurhad ynghylch sut y dylid dehongli'r contract. Fodd bynnag, roedd anghydfod o hyd ynghylch yr egwyddor gontractiol a chost ac effeithiau newidiadau i'r dyluniad ar y rhaglen.<br><br>Yn 2019, dechreuodd Llywodraeth Cymru gam cymrodeddu fel y broses datrys anghydfod derfynol a nodir yn y contract, mewn perthynas â phwynt dyfarnu ynghylch wal gynnal RW08 a aeth o blaid Costain yn flaenorol.<br><br>Rhannodd y dyfarniad cymrodeddu y cyfrifoldeb am Wybodaeth am y Gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Costain ac aeth yn groes i benderfyniad dyfarnu cynharach i ryw raddau (ond o sylwedd ym marn Llywodraeth Cymru).<br><br>Yn sgil y dyfarniad, cyhoeddodd Costain hysbysiad rheoliadol / diweddariad masnachu i'r marchnadoedd yn adolygu ei berfformiad masnachu blwyddyn lawn a ragwelwyd ar gyfer 2019 ([https://otp.investis.com/clients/uk/costain_group/rns/regulatory-story.aspx?cid=1001&newsid=1352233](https://otp.investis.com/clients/uk/costain_group/rns/regulatory-story.aspx?cid=1001&newsid=1352233))<br><br>Fodd bynnag, mewn penderfyniad dilynol, ni lwyddodd Llywodraeth Cymru i ddod i gytundeb â'r Contractwr ar gymhwysiad ehangach dyfarniad RW08 ar gyfer y waliau cynnal a oedd yn weddill ar y cynllun. O ganlyniad, ym mis Ebrill 2020, atgyfeiriodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad dyfarnu cynharach ar RW14 (aeth y penderfyniad o blaid Costain ynghylch egwyddor gontractiol) i gam cymrodeddu.<br><br>**Cafwyd y dyfarniad ar 2 Medi 2020 yn cadarnhau mai dehongliad Llywodraeth Cymru o'r contract oedd yn drech ar bob mater o sylwedd.**<br><br>Yn sgil y penderfyniad hwn, cyhoeddodd Costain hysbysiad rheoliadol unwaith eto |

| | |
|---|---|
| | (https://otp.investis.com/clients/uk/costain_group/rns/regulatory-story.aspx?cid=1001&newsid=1411416) gan gadarnhau penderfyniad y cymrodeddwr;<br><br>*(i)* *"…canfu mai Costain sy'n gyfrifol am y wybodaeth ddylunio ac, o ganlyniad, nid yw'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r wal gynnal yn ddigwyddiad iawndal o dan y Contract."*<br><br>(ii) *"…mae goblygiadau ar gyfer y cyfrifoldeb am wybodaeth ddylunio o dan y contract cyfan ac felly ar gyfer gallu Costain i adennill y costau hyn."*<br><br>(iii) "…*bydd canlyniadau hanner blwyddyn y Grŵp ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2020 yn cynnwys codi tâl ar y datganiad incwm o tua £45 miliwn i addasu'r refeniw a nodwyd yn seiliedig ar lefel yr arian parod a ddaeth i law hyd yma o dan y Contract."* a<br>(iv) "*bydd Costain yn parhau i gyflawni rhwymedigaethau'r Cwmni o dan y Contract, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2021.*"<br><br>Ar yr un pryd â'r cam cymrodeddu ar gyfer RW14, dechreuodd Costain ei ddyfarniad ei hun ym mis Mehefin 2020 ar asesiad Rheolwr y Prosiect o oblygiadau cwantwm (cost a rhaglen) dyfarniad gwreiddiol RW14. Honnodd Costain fod asesiad Rheolwr y Prosiect yn sylweddol is na'i asesiad ef. Cyfarwyddodd Llywodraeth Cymru arbenigwyr rhaglen a chost annibynnol i'n cefnogi yn y broses. O ganlyniad, dim ond cynnydd bach a ddyfarnwyd i Costain i'r swm a weithredwyd gan Reolwr y Prosiect sy'n golygu bod amddiffyniad Llywodraeth Cymru o'r atgyfeiriad yn llwyddiannus ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r dyfarniad cymrodeddu dilynol ar gyfer RW14 (Medi 2020, gweler uchod) wedi gwrthdroi'r penderfyniad cymrodeddu cynharach ac mae'r cwantwm diwygiedig hwn bellach yn ddim. |
| Gwaith ymgymerydd statudol (cyflenwi cyfleustodau) **(un dyfarniad)** | Honnodd Costain fod cwmpas a hyd dargyfeiriadau ymgymerydd statudol wedi newid a bod hyn wedi arwain at achosion cysylltiedig eraill o oedi a chostau ychwanegol. Dechreuodd Costain ddyfarniad yn erbyn Llywodraeth Cymru. Aeth penderfyniad y dyfarnwr o blaid Llywodraeth Cymru. |

32. Mae darganfod Asbestos yn hen ffatri Anacomp, analllu Costain i gaffael Caeau Ben Ward na dewis amgen addas ar gyfer prosesu pridd a'r newidiadau i gwmpas gwaith yr Ymgymerydd Statudol i gyd wedi bod yn ffactorau critigol a effeithiodd ar y rhaglen a'r gost. Fodd bynnag, y prif anghydfod a gafwyd ar y cynllun hwn oedd yr egwyddor o ran pwy sy'n berchen ar ddyluniad, cwmpas a manyleb y gwaith (a elwir yn Wybodaeth am y Gwaith) ac o ganlyniad, pwy ddylai fod yn atebol am y cynnydd mewn cost a'r oedi i'r rhaglen a oedd yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau iddi.

33. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod o'r farn erioed, bod Costain, fel contractwr dylunio ac adeiladu, wedi paratoi a darparu'r dyluniad yn ystod contract Rhan 1 ac felly ei fod yn gyfrifol am ddatblygu ei ddyluniad yn ystod Rhan 2 a'i adeiladu. Cytunodd y cymrodeddwr â'r safbwynt hwnnw yn ei benderfyniad ar 2 Medi 2020.

<u>Cynnydd mewn Costau</u>

34. Arcadis a nododd ar ddechrau 2017 ei bod yn ymddangos bod y costau'n codi ac nad oedd y cynllun yn mynd rhagddo yn unol â'r rhaglen a chododd hyn â Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Costain gynnal ailwerthusiad manwl o'r gwaelod i fyny o'r costau rhagamcanol a'r amserlen i gwblhau'r prosiect. Mynnodd Llywodraeth Cymru hefyd fod y personél ar y safle yn newid.

35. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwnnw, nodwyd bod problem gyda chyllideb y cynllun sydd wedi parhau i godi wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Er bod newidiadau i elfennau eraill yng nghyllideb y prosiect, yn benodol costau dargyfeirio yr Ymgymerydd Statudol a hefyd gostau Asiant y Cyflogwr sydd o ganlyniad uniongyrchol i berfformiad masnachol y cynllun hwn, yn y cynnydd mewn costau i'r contract adeiladu gyda Costain y gwelir y mwyafrif o'r cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi roi elfennau bach o ddadgwmpasu ar waith ac wedi caniatáu i Costain gau nifer mawr o ffyrdd mewn ymdrech i leihau costau ac unrhyw oedi i'r rhaglen. Fodd bynnag, mewn contract dylunio ac adeiladu, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n helaeth ar berfformiad y contractwr i reoli costau a'r rhaglen. Ystyriodd Llywodraeth Cymru hefyd derfynu contract Costain a phenodi contractwr newydd i orffen y cynllun ond daeth i'r casgliad y byddai hyn yn arwain at fwy o oedi sylweddol a chynnydd pellach mewn costau.

36. Mae'r tabl isod yn nodi datblygiad pob un o elfennau cyllideb y cynllun ers dyfarnu'r contract adeiladu. Mae'r tabl yn seiliedig ar y tabl a geir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru gyda cholofn ychwanegol i nodi'r sefyllfa bresennol. Mae goblygiadau llawn y cam cymrodeddu ar gyfer RW14 yn cael ei werthuso ar hyn o bryd er bod y ffigurau yn y golofn ar ochr dde y tabl yn rhoi arwydd cynnar o effaith y penderfyniad ar gostau'r cynllun ac yn benodol ar atebolrwydd Llywodraeth Cymru o dan y contract.

| | | **£ miliynau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2010** (penodi contractwr Ymwneud Cynnar gan Gontractwr drwy gontract Rhan 1)[2] | **Rhag-14** (dyfarnu Rhan 2 - contract dylunio ac adeiladu manwl) | **Ion-14** | **Tach-19** | **Medi-20** |
| Gwariant hanesyddol – yn cynnwys dyluniad amlinellol a datblygiad | 4.4 | 19.7 | 19.7 | 19.7 | 19.7 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost darged contract dylunio ac adeiladu manwl | 110.2 (cost darged gychwynnol) | 159.5 | 159.5 | 159.5 | 159.5 |
| Newid a gyfarwyddwyd | | | 14.8 | 16.7 | 21.7 |
| Amcangyfrif o gyfran 'poen' Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau disgwyliedig ar gyfer dyfarniadau o blaid Costain | | | 40.6 | 80.5 | 63.5 |
| Costau ymgymerydd statudol | 3.9 | 15.2 | 23.2 | 18.2 | 18.4 |
| Risg (yn cynnwys ffioedd cyfreithiol) | 16.5 | 14 | 5.3 | 4.7 | 2.7 |
| Tuedd optimistiaeth[3] | 45.1 | | | | |
| Costau asiant y cyflogwr[4] | 3 | 2 | 4.8 | 8.5 | 9.1 |
| Tiroedd | 7.3 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Costau eraill | 3.3 | 1.8 | 2.4 | 2.4 | 2.8 |
| **Is-gyfanswm (costau i bwrs y wlad)** | **193.7** | **223.2** | **281.3** | **321.1** | **308.4** |
| Amcangyfrif o gyfran 'poen' Costain | 0 | 0 | [golygwyd][5] | [golygwyd][5] | [golygwyd] |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **193.7** | **223.2** | [golygwyd][5] | [golygwyd][5] | [golygwyd] |

37. Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo gan y Rheolwr Prosiect annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i weinyddu'r contract ac mae'n cynrychioli ei asesiad o rwymedigaethau Llywodraeth Cymru. Nid yw Costain yn cytuno â'r ffigurau hyn ac mae o'r farn eu bod wedi'u tanddatgan. Lle Costain fydd herio gan ddefnyddio pa lwybrau anghydfod bynnag sydd ar gael iddo er mwyn newid y costau hyn.

38. Ni cheir eglurder llawn ar rwymedigaethau terfynol Llywodraeth Cymru o dan y contract nes i'r gwaith o adeiladu'r cynllun ddod i ben, nes bydd y costau alldro terfynol

yn hysbys a nes i unrhyw anghydfodau eraill ddod i ben. Fodd bynnag, mae'r cwmpas ar gyfer unrhyw newid sylweddol ar gyfer y sefyllfa bresennol yn culhau.

39. Mae'r newidiadau o ran y ffordd y gellir addasu'r costau yn y prif gontract adeiladu yn cynnwys pedair elfen. Nes i'r cyfrif terfynol gael ei setlo, bydd y cwantwm o fewn pob un o'r elfennau hyn yn newid. Mae'r pedair elfen fel a ganlyn:

- Cynnydd yn y Gost Darged o ganlyniad i'r newid a gyfarwyddwyd y cytunwyd arno. Mae hyn yn cynnwys unrhyw effaith ar waith adeiladu yn sgil COVID-19 yn y dyfodol.

- Newid yn y Gost Darged o ganlyniad i gynnydd neu ostyngiad mewn rhwymedigaethau i Lywodraeth Cymru yn deillio o benderfyniadau anghydfod naill ai o blaid neu yn erbyn Llywodraeth Cymru.

- Newid, naill ai cynnydd neu ostyngiad yn yr alldro rhagamcanol (h.y. rhagamcanion Costain o'i gostau terfynol i gwblhau'r cynllun). Cost Costain yw hon i'w rheoli ond gellir craffu arni drwy Reolwr y Prosiect ar sail llyfr agored.

- newid yn y dosbarthiad o'r gyfran ‘poen’. Mae'r gyfran ‘poen’ yn ffwythiant uniongyrchol o'r gwahaniaeth rhwng y Gost Darged a'r all-dro rhagamcanol. Mae Llywodraeth Cymru a Costain yn talu cyfran o gyfanswm y gyfran ennill yn seiliedig ar y dull ‘poen-ennill’ a nodwyd yn y contract.

40. Bydd cynnydd yn y gost darged yn gostwng lefel y gyfran ‘poen’ i Lywodraeth Cymru ond yn cynyddu rhwymedigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o dan y contract (gan mai Llywodraeth Cymru sy'n talu am yr holl gynnydd i'r Gost Darged o gymharu â chyfran ohoni fel rhan o'r gyfran ‘poen’. Mae'r gwrthwyneb yn wir am unrhyw ostyngiad i'r Gost Darged. Bydd y gyfran ‘poen’ yn parhau i newid wrth i fwy o sicrwydd o gost alldro Costain gael ei sefydlu ynghyd â goblygiadau penderfyniadau anghydfod eraill ar y Gost Darged.

41. Er bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cost a'r oedi i'r rhaglen, y newidiadau i'r Wybodaeth am y Gwaith sydd wedi cael yr effaith fwyaf o bell ffordd ar y gost o adeiladu'r cynllun a'r amser a gymerir i wneud hynny.

42. Roedd contract Rhan 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Costain baratoi a chyflwyno dyluniad amlinellol ar gyfer y cynllun y gwnaeth seilio ei Gost Darged cyn adeiladu arno (yn cynnwys risg). Yng nghontract Rhan 2 roedd yn ofynnol i Costain ddatblygu ei ddyluniad amlinellol ac adeiladu arno. Y gwahaniaeth yng ngraddau'r amlinelliad a'r dyluniad manwl sydd wedi arwain at y cynnydd mewn costau, ac yn benodol y gwahaniaethau sy'n codi yn ystod y broses fanwl o ddylunio'r strwythurau.

**Y materion, topograffi'r safle, gofynion rheoli traffig ac amodau tir cymhleth, a olygodd fod y prosiect wedi bod yn llawer anoddach na'r disgwyl i'r contractwyr ei gyflawni**

43. Gall achosion o oedi cynnar yn y rhaglen gael eu cysylltu'n uniongyrchol ag anallu Costain i gaffael Caeau Ben Ward neu opsiwn amgen addas ar gyfer prosesu pridd a chanfod Asbestos yn Anacomp, yr effeithiodd y ddau ar y gallu i adeiladu cyffordd Bryn-mawr a dargyfeiriadau cynnar dargyfeiriadau Ymgymerydd Statudol allweddol.

44. Fodd bynnag, mae'r oedi mwyaf ar y rhaglen yn sgil y ffaith bod Costain wedi gorfod delio ag amodau'r safle. Mae contractau Ymwneud Cynnar gan Gontractwr yn gweithio'n dda pan fydd y contractwr dylunio ac adeiladu yn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau er mwyn deall y safle. Roedd cwmpas contract Rhan 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Costain nodi a chynnal pa arolygon bynnag oedd yn ofynnol i feithrin dealltwriaeth o'r safle, yn cynnwys arolygon topograffi ac amgylcheddol ac ymchwiliadau tir yn benodol.

Amodau tir

45. Ar ôl dyfarnu Rhan 1 o'r contract roedd cyfnod o 28 mis pan fu Costain yn datblygu ei ddyluniad er mwyn mynd drwy'r Broses Statudol ac yna 14 mis arall i gynllunio'r ffordd roedd yn bwriadu cyflawni'r gwaith. Yn ystod y cam datblygu dyluniad, ymrwymodd Costain i un contract ar gyfer Ymchwiliad Tir ar ddiwedd 2011 ac ar ddechrau 2012 i lywio'r dyluniad amlinellol. O ddechrau 2012 hyd at ddiwedd cam y dyluniad amlinellol ym mis Hydref 2013, ni ofynnodd Costain am unrhyw Ymchwiliadau Tir eraill ac ni chynhaliodd unrhyw Ymchwiliadau Tir eraill er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu ei ddyluniad. Ategodd Ymchwiliad Tir Costain y data sylweddol a roddwyd i bob un oedd yn tendro, fel rhan o'r broses dendro, o'r tyllau turio a'r pyllau arbrofol a gasglwyd drwy gyfres o ymchwiliadau hanesyddol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ers y 1990au ar gyfer y dyluniad enghreifftiol.

46. Ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, canfu Costain nad oedd yr amodau tir mewn nifer mawr o ardaloedd ar hyd y safle cystal â'r disgwyl. O ganlyniad, daeth Costain i'r casgliad y byddai ei ddyluniadau amlinellol yn anymarferol ac yn aneconomaidd i'w hadeiladu a/neu bod angen elfennau dylunio ychwanegol h.y. ni allent gario'r llwythau yr oedd disgwyl iddynt eu cario yn ddiogel er mwyn cyrraedd safonau peirianneg ar eu ffurf wreiddiol a ragwelwyd a/neu roedd angen newid y dyluniad amlinellol. Roedd hyn yn golygu y bu'n rhaid i Costain ymweld â nifer mawr o strwythurau, yn ystod y cyfnod adeiladu, gan achosi oedi cysylltiedig i'r rhaglen adeiladu er mwyn cyrraedd y safonau dylunio gofynnol a gofynion o ran ymgynghori â rhanddeiliaid fel bod y strwythurau newydd yn fwy ac yn ddrutach a bod angen mwy o amser i'w hadeiladu.

Gofynion rheoli traffig a thopograffi safleoedd

47. Mae'r cynllun yn cynnwys ehangu ffordd bresennol yr A465 y mae mwy na hanner ei hyd wedi'i dorri i mewn i ochrau serth Ceunant Clydach. Mae'r ceunant yn arbennig o sensitif yn amgylcheddol ac mae'n destun nifer o ddynodiadau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Oherwydd natur y cynllun, cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithgareddau adeiladu ochr yn ochr â thraffig byw. Oherwydd natur y safle, nid oes llawer o lwybrau amgen addas i'r A465 yn lleol.

48. Mae'r oedi mwyaf sylweddol i'r rhaglen yn gysylltiedig â nifer o faterion sy'n gysylltiedig â'r newid sy'n ofynnol i ddyluniadau strwythurau. Oherwydd y gwaith ail-ddylunio, nid oedd dyluniadau rhai strwythurau ar gael mewn pryd a waethygwyd oherwydd y cyfnodau adeiladu hwy. Mae hyn wedi'i ddwysáu gan sensitifrwydd amgylcheddol y safle lle mae cyfyngiadau tymhorol wedi arwain at effaith anghymesur lle mae oedi wedi golygu bod ffenestr dymhorol wedi cael ei cholli.

49. Yn ogystal â newidiadau i'r dyluniad, mae prosesau i ddiwygio ac ailystyried methodolegau wedi golygu ei bod yn anymarferol adeiladu nifer o'r strwythurau ochr yn ochr â thraffig byw heb gau ffyrdd neu wneud trefniadau sylweddol dros dro i ddiogelu defnyddwyr ffyrdd. Yn y dystiolaeth a gyflwynodd Costain yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ar gyfer y cynllun yn 2014, cynigiodd gau nifer bach o ffyrdd ar benwythnosau er mwyn gosod pontydd troed a gwneud gwaith cysylltu. Gan ei bod yn amlwg bod angen i gyfran fawr o'r gwaith adeiladu gael ei wneud pan fydd ffyrdd wedi cau, mae Llywodraeth Cymru o'i hanfodd wedi cytuno ar raglen sylweddol o gau ffyrdd ar benwythnosau a thros nos er mwyn hwyluso gwaith adeiladu diogel a cheisio adfer rhywfaint o'r oedi i'r rhaglen. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru o'i hanfodd wedi caniatáu i Costain gau ffyrdd 58 o weithiau ar benwythnosau a mwy na 100 o weithiau dros nos ac mae angen cau nifer bach eto cyn i'r gwaith adeiladu ddod i ben. Er nad yw hyn yn ddelfrydol o bell ffordd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Costain i sicrhau y gwneir cymaint â phosibl o weithgareddau adeiladu pan fydd ffyrdd wedi cau.

50. Mae'r cynllun yn agosáu at ei derfyn a chyflawnwyd newid mawr mewn prosesau rheoli traffig yng nghanol mis Awst 2020 er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau cam terfynol y gwaith.

51. Mae'r llwybr hanfodol ar gyfer rhaglen y prosiect, ac sy'n allweddol er mwyn ei gwblhau, yn ddarn o waith peirianneg sy'n rhedeg drwy ran 400m o'r ffordd tuag at ganol Ceunant Clydach lle mae wal gynnal (RW14) yn cael ei hadeiladu. Nododd Costain yr hyn a ystyriwyd ganddo yn nam geodechnegol yn gynnar iawn yn 2015 ac, er nad oedd yn risg i'r cyhoedd sy'n teithio, achosodd iddo newid yn sylfaenol ddyluniad y wal gynnal a phont fechan. Dylid nodi bod yr ardal hon yn un a nodwyd gan Costain yn ei ddyluniad tendr ar gyfer newid Peirianneg Gwerth gan mai traphont ydoedd yn y dyluniad enghreifftiol.

52. Er bod y gwaith o adeiladu'r wal yn mynd rhagddo'n dda, mae cymhlethdod y dyluniad a'r gwaith adeiladu yn llywio'r llwybr critigol i gwblhau'r rhaglen.

53. Mae cosbau ariannol, lle caiff Costain ei gosbi am fod yn hwyr yn cyflawni'r rhaglen, ond cymharol fach yw'r rhain o gymharu â'r cyfyngiadau ariannol o'r broses anghydfod.

**Amserlen ar gyfer cwblhau**

54. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried goblygiadau llawn y dyfarniad cymrodeddu ac mae'n paratoi ar gyfer rhagor o drafodaethau o sylwedd â Costain ynghylch cwblhau'r gwaith a'r cyfrif terfynol.

55. Cyhoeddodd Costain ddatganiad rheoliadol i'r farchnad ar ddiwedd 2019, a chyn cyfnod COVID-19, nododd y byddai'r gwaith cwblhau yn dod i ben yn ystod hanner cyntaf 2021. Arweiniodd COVID-19 at gau'r safle am bythefnos ym mis Mawrth/ Ebrill wrth i Costain addasu ei arferion gwaith a chyflwynwyd cyfleusterau lles a phrotocolau diogelwch ychwanegol. Heblaw am hynny, hyd yma, dim ond effaith fach y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddatblygiad ar y safle.

56. Yn dilyn y penderfyniad cymrodeddu diweddar ar RW14, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eglurder ynghylch y rhaglen gan Costain. Yn ei ddatganiad i'r ddinas ar 2 Medi 2020, cadarnhaodd Costain y bydd yn parhau i gyflawni rhwymedigaethau'r Cwmni o dan y Contract, ac y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2021."

57. Yn anochel, bydd unrhyw raglen i gwblhau'r contract yn dibynnu ar COVID-19 ac mae'n bosibl y byddai gofyn i gyflenwyr mawr ddilyn cyfyngiadau symud a chyfnodau ynysu neu gwarantin yn effeithio ar hyn.